

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
Answers to Questions not reached in Plenary
15/11/2006

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys
Contents

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid
Questions to the Finance Minister

- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad
Questions to the Minister for Environment, Planning and Countryside

Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid
Questions to the Finance Minister

Y Portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
The Health and Social Services Portfolio

Q9 Helen Mary Jones: What consideration did the Minister give to the Health and Social Services Committee's discussions on budget priorities when formulating the overall budget allocation to that portfolio? OAQ0688(FIN)

The Finance Minister (Sue Essex): I take the outcome of committee discussions on budget priorities into consideration when preparing both the draft and final budgets.

C9 Helen Mary Jones: Pa ystyriaeth a roddodd y Gweinidog i drafodaethau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch blaenoriaethau'r gyllideb wrth lunio'r dyraniad cyllideb cyffredinol i'r portffolio hwnnw? OAQ0688(FIN)

Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex): Yr wyf yn rhoi ystyriaeth i ganlyniadau trafodaethau'r pwyllgor ar flaenoriaethau'r gyllideb wrth baratoi'r gyllideb ddrafft a'r gyllideb derfynol.

Twyll
Fraud

Q10 David Melding: Will the Minister make a statement on the measures taken to ensure that Welsh Assembly Government funds are not vulnerable to fraud? OAQ0675(FIN)

Sue Essex: The controls to protect Welsh Assembly Government funds against fraud cover all processes through which money is spent, including grants, payroll and the purchase ledger. Daily routine controls are complemented by clear guidance on the

C10 David Melding: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau a gymerwyd i sicrhau nad yw cronfeydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn agored i dwyll? OAQ0675(FIN)

Sue Essex: Mae'r rheolaethau i amddiffyn cronfeydd Llywodraeth Cynulliad Cymru rhag twyll yn cynnwys yr holl brosesau gwario arian, gan gynnwys grantiau, y gyflogres a'r llyfr cyfrifon prynu. Mae rheolaethau beunyddiol yn cael eu hategu gan

handling of fraud allegations, the statement of internal control process, the internal audit service programme and our engagement in the national fraud initiative.

ganllawiau clir ar ymdrin â honiadau o dwyll, y datganiad ar y broses reolaeth fewnol, rhaglen y gwasanaeth archwilio mewnol a'n hymrwymiad yn y fenter wrth-dwyll genedlaethol.

*Tynnwyd cwestiwn 11 OAQ0673(FIN) yn ôl.
Question 11 OAQ0673(FIN) withdrawn.*

Y Strategaeth Adleoli The Relocation Strategy

Q12 Lisa Francis: Will the Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's relocation strategy? OAQ0677(FIN)

C12 Lisa Francis: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am strategaeth adleoli Llywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ0677(FIN)

Sue Essex: The location strategy programme will deliver three new buildings by 2008. The first building has opened in Merthyr Tydfil. I have announced the preferred design and contractors for the Llandudno Junction and Aberystwyth buildings, and work is now progressing to obtain planning permission for them.

Sue Essex: Bydd rhaglen y strategaeth leoli yn darparu tri adeilad newydd erbyn 2008. Mae'r adeilad cyntaf wedi'i agor ym Merthyr Tudful. Yr wyf wedi cyhoeddi'r contractwyr a'r cynllun a ffeirir ar gyfer adeiladau Cyffordd Llandudno ac Aberystwyth, ac mae gwaith yn mynd rhagddo yn awr i gael caniatâd cynllunio ar eu cyfer.

Portffolio yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad The Environment, Planning and Countryside Portfolio

C13 Elin Jones: Pa ystyriaeth a roddodd y Gweinidog i drafodaethau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ynghylch blaenoriaethau'r gyllideb wrth lunio'r dyraniad cyllideb cyffredinol i'r portffolio hwnnw? OAQ0694(FIN) [W]

Q13 Elin Jones: What consideration did the Minister give to the Environment, Planning and Countryside Committee's discussions on budget priorities when formulating the overall budget allocation to that portfolio? OAQ0694(FIN) [W]

Sue Essex: Yr wyf yn rhoi ystyriaeth i ganlyniad trafodaethau'r pwyllgor ar flaenoriaethau'r gyllideb wrth baratoi'r gyllideb ddrafft a'r gyllideb derfynol.

Sue Essex: I take the outcome of committee discussions on budget priorities into consideration when preparing both the draft and final budgets.

Y Portffolio Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau The Education, Lifelong Learning and Skills Portfolio

Q14 William Graham: Will the Minister outline her considerations for increasing the education, lifelong learning and skills portfolio budget for 2006-07? OAQ0703(FIN)

C14 William Graham: A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei hystyriaethau ar gyfer cynyddu cyllideb y portffolio addysg, dysgu gydol oes a sgiliau yn 2006-07? OAQ0703(FIN)

Sue Essex: I considered the relevant priorities set out in 'Wales: A Better Country'.

Sue Essex: Bûm yn ystyried y blaenoriaethau perthnasol a nodir yn 'Cymru: Gwlad Well'.

**Y Portffolio Menter, Arloesi a Rhwydweithiau
The Enterprise, Innovation and Networks Portfolio**

C15 Alun Ffred Jones: Pa ystyriaeth a roddodd y Gweinidog i drafodaethau'r Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau ynghylch blaenoriaethau'r gyllideb wrth lunio'r dyraniad cyllideb cyffredinol i'r portffolio hwnnw? OAQ0695(FIN) [W]

Q15 Alun Ffred Jones: What consideration did the Minister give to the Enterprise, Innovation and Networks Committee's discussions on budget priorities when formulating the overall budget allocation to that portfolio? OAQ0695(FIN) [W]

Sue Essex: Yr wyf yn rhoi ystyriaeth i ganlyniadau trafodaethau'r pwyllgor ar flaenoriaethau'r gyllideb wrth baratoi'r gyllideb ddrafft a'r gyllideb derfynol.

Sue Essex: I take the outcome of committee discussions on budget priorities into consideration when preparing both the draft and final budgets.

**Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad
Questions to the Minister for Environment, Planning and Countryside**

**Penderfyniadau Cynllunio
Planning Decisions**

Q13 Huw Lewis: Will the Minister make a statement on community involvement in planning decisions? OAQ0936(EPC)

C13 Huw Lewis: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfraniad y gymuned tuag at benderfyniadau cynllunio? OAQ0936(EPC)

The Minister for Environment, Planning and Countryside (Carwyn Jones): Historically, the planning system has created substantial opportunities for the community to engage with local government on planning matters. Since the 2002 review of planning, the Assembly Government has strengthened this involvement through the new requirement for authorities to produce a community involvement scheme for their local development plans.

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones): Yn hanesyddol, y mae'r system gynllunio wedi creu cyfleoedd sylweddol i'r gymuned gysylltu â llywodraeth leol ynghylch materion cynllunio. Ers adolygiad cynllunio 2002, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cryfhau'r ymwneud hwn drwy'r gofyniad newydd ar awdurdodau i gynhyrchu cynllun cynnwys cymunedau ar gyfer eu cynlluniau datblygu lleol.

**Datblygu Gwledig
Rural Development**

C14 Elin Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau parthed datblygu gwledig? OAQ0924(EPC)

Q14 Elin Jones: Will the Minister make a statement on his priorities for rural development? OAQ0924(EPC)

Carwyn Jones: My priorities are to continue to direct support to improve the competitiveness of the agricultural and forestry sectors, to enhance the environment and countryside, to improve the quality of life in rural areas, and to build local capacity for employment and diversification.

Carwyn Jones: Fy mlaenoriaethau yw parhau i gyfeirio cymorth i wella cystadleurwydd y sectorau amaeth a choedwigaeth, gwella'r amgylchedd a chefn gwlad, gwella ansawdd bywyd mewn ardaloedd gwledig, a meithrin capasiti lleol ar gyfer cyflogaeth ac arallgyfeirio.

Safleoedd Tirlenwi (Alun a Glannau Dyfrdwy)
Landfill Sites (Alyn and Deeside)

Q15 Carl Sargeant: Will the Minister make a statement on the provision of landfill sites in Alyn and Deeside? OAQ0951(EPC)

C15 Carl Sargeant: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu safleoedd tirlenwi yn Alyn a Glannau Dyfrdwy? OAQ0951(EPC)

Carwyn Jones: The north Wales regional waste plan, published in 2004, includes Alyn and Deeside and demonstrates the Assembly Government's commitment to addressing waste in the area. It sets out the capacity required for each local authority for all waste streams, including landfill. A revised plan will be available next year.

Carwyn Jones: Mae cynllun gwastraff rhanbarthol gogledd Cymru, a gyhoeddwyd yn 2004, yn cynnwys Alun a Glannau Dyfrdwy ac mae'n arddangos ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i fynd i'r afael â gwastraff yn yr ardal. Mae'n nodi'r capasiti sydd ei angen ar bob awdurdod lleol ar gyfer pob ffrwd wastraff, gan gynnwys tirlenwi. Bydd cynllun diwygiedig ar gael y flwyddyn nesaf.